*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig Terfynol 2018/19 ac Alldro Amcanol 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Cadarnhau bod Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 wedi cael eu cymeradwyo gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.

2. Cyflwyno sefyllfa ragamcanol y gwariant refeniw a chyfalaf, fel yr oedd pethau ar 31 Awst 2019.

3. Ceisio cymeradwyaeth i ailddosbarthu penawdau'r gyllideb refeniw er mwyn cydymffurfio'n llwyr â gofynion adrodd CIPFA.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4. Yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2019, cafodd yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) Ddatganiad o Gyfrifon drafft 2018/19. Cafodd y gwaith o gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig terfynol ei ddirprwyo i'r Panel Gweithredol. Fe wnaeth y Panel Gweithredol gyflawni'r gwaith ar 29 Gorffennaf 2019, ar ôl derbyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a oedd yn cadarnhau'r farn ddiamod. Mae'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gael ar wefan yr Awdurdod.

5. Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw o £35.2m yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018. Y sefyllfa alldro a ragwelir o hyd yw y bydd yr Awdurdod yn adennill costau o gymharu â'r gyllideb hon. Cynhaliwyd adolygiad o'r gyllideb, ac ailgysonwyd penawdau'r gyllideb er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd CIPFA.

6. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £3.1m ar 17 Rhagfyr 2018. Adolygwyd hyn, a'i diwygio i £2.1m.

**ARGYMHELLION**

7. Gofynnir i'r Aelodau:

   I. Nodi'r ffaith fod Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 wedi cael eu cymeradwyo;

II. Nodi sefyllfaoedd alldro drafft y refeniw a'r cyfalaf, fel sydd yn yr adroddiad; a

III. Cymeradwyo ailgysoni'r gyllideb, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau ariannol.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

8. Nid yw'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

9. Cafodd Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2018/19 eu cymeradwyo gan y Panel Gweithredol ar 29 Gorffennaf 2019. Fel sy'n ofynnol dan Reoliad 13 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru), mae'r cyfrifon archwiliedig wedi cael eu darparu ar wefan yr Awdurdod.

10. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am sefyllfa alldro drafft y refeniw a'r cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i ailgysoni penawdau'r gyllideb, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd CIPFA.

**GWYBODAETH**

**CYLLIDEB REFENIW**

11. Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae hyn yn dangos sefyllfa 'adennill costau' o gymharu â'r gyllideb o £35.237m.

| **Refeniw** | **Cyllideb £** | **Rhagamcan £** | **Amrywiad £** |
|---|---|---|---|
| Staffio | 25,460,571 | 25,460,571 | 0 |
| Safleoedd | 1,835,579 | 1,911,657 | 76,078 |
| Cludiant | 1,035,415 | 992,657 | -42,758 |
| Cyflenwadau | 3,199,886 | 3,335,852 | 135,966 |
| Partïon Eraill | 846,763 | 913,809 | 67,046 |
| Cyllido Cyfalaf | 3,159,476 | 3,037,162 | -122,314 |
| Incwm | -300,578 | -414,596 | -114,018 |
| **Cyfanswm** | **35,237,112** | **35,237,112** | **0** |

Costau Gweithwyr

12. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, y gyllideb ar gyfer gwariant yn ymwneud â gweithwyr yw £25.460m, sef 72% o'r gwariant. Y rhagolygon alldro drafft yw sefyllfa gytbwys, er na fydd hyn ond yn digwydd drwy reolaeth ofalus o'r pwysau presennol ar y gyllideb a lefelau gweithgarwch arferol.

Safleoedd

13. Y gyllideb ar gyfer safleoedd yw £1.836m, a rhagamcanir gorwariant o £76k. Mae meysydd allweddol y gorwariant yn cynnwys costau cyfleustodau a chasglu sbwriel.

Cludiant

14. Y gwariant rhagamcanol ar gyfer costau'n ymwneud â cludiant yw £992k, sydd £43k yn is na'r gyllideb. Llwyddwyd i wneud hyn drwy reoli costau teithio.

Cyflenwadau

15. Mae'r gwariant rhagamcanol ar gyflenwadau yn £3.161m, sef £135k o orwariant o'i gymharu â'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys costau uwch ar gyfer trwyddedau cyfrifiaduron, cynnal a chadw cyfrifiaduron a gwariant ar gyfer Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Mae'r gwariant uwch hwn ar y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cael ei wrthbwyso gan incwm ychwanegol.

Cyllido Cyfalaf

16. Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn £3.159m. Mae'r costau cyllido cyfalaf yn cynnwys y ffi i'r refeniw am ddibrisiant, a chost benthyca hefyd. Rhagwelir tanwariant o £122k, sy'n adlewyrchu'r gostyngiadau yn rhaglen gyfalaf 2018/19. Mae'r rhagolygon hyn yn rhagweld y bydd y cyfraddau llog yn aros ar eu lefel presennol.

Incwm

17. Mae'r gyllideb incwm yn £301k. Yr incwm a ragwelir (heblaw grantiau) yw £415k. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd incwm a glustnodwyd mewn perthynas â Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

Arian Grant Refeniw

18. Isod, mae dadansoddiad o'r ariant grant ar gyfer 2019/20.

| | £ |
|---|---|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 143,529 |
| Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref | 223,300 |
| Y Ffenics | 386,549 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 141,593 |
| Cyfraniadau Pensiwn Diffoddwyr Tân | 1,085,673 |
| Firelink | 415,600 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,396,244** |

**Y RHAGLEN GYFALAF**

19. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £3.119m. Adolygwyd y rhaglen gyfalaf, a'i diwygio fel ei bod yn adlewyrchu'n llwyr y prosiectau a gynlluniwyd i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn.

20. Mae'r cyllidebau cysylltiadau ac offer gweithredol wedi cael eu hadolygu yn dilyn cwblhau prosiectau yn ystod 2018/19.

21. Mae'r gwaith adeiladu mawr yn ymwneud ag adnewyddu safle Dolgellau, na fydd yn symud ymlaen yn y flwyddyn ariannol hon.

| | **Cyllideb Wreiddiol £** | **Cyllideb Ddiwygiedig £** |
|---|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth | 1,007,155 | 953,649 |
| Mân Waith Adeiladu | 728,988 | 878,000 |
| Offer Gweithredol | 266,522 | 41,000 |
| Cerbydau | 421,429 | 180,000 |
| Offer Cysylltu | 200,000 | 0 |
| Gwaith Adeiladu Mawr | 495,300 | 0 |
| **CYFANSWM** | **3,119,394** | **2,052,649** |

**CYLLIDEB DDIWYGIEDIG**

22. Cynhaliwyd adolygiad o benawdau'r gyllideb, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd CIPFA. Mae'r gyllideb gyffredinol yn aros heb newid, er bod angen diwygio'r categorïau ar gyfer nifer o feysydd gwariant.

23. Hefyd, mae'r gyllideb wedi cael ei diwygio i adlewyrchu incwm grant a gwariant rhagamcanol. Isod, dangosir y newidiadau i'r gyllideb.

| | **Cyllideb Wreiddiol** £000 | **Grantiau** £000 | **Addasiadau Eraill** £000 | **Cyllideb Ddiwygiedig** £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 25,461 | 1,547 | 259 | 27,267 |
| Safleoedd | 1,836 | | 333 | 2,169 |
| Cludiant | 1,035 | 34 | -79 | 990 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 2,986 | 939 | 194 | 4,119 |
| Taliadau Partïon Eraill | 1,061 | | -607 | 454 |
| Cyllido Cyfalaf | 3,159 | | -83 | 3,076 |
| Incwm | -301 | -2396 | -141 | -2,838 |
| **Cyfanswm** | **35,237** | **0** | **0** | **35,237** |

Ceisir cael cymeradwyaeth i ailgysoni'r gyllideb yn unol â'r gofynion hyn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae arian i'r Gwasanaeth yn llesol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir cyllideb bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol dan y gyfraith fod yr Awdurdod yn llunio Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau rhagnodedig |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |